Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Penderfyniadau gwybodus:

## Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Hydref 2012

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:
- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|

**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **2**

**Argymhellion** **4**

**Deilliannau a darpariaeth** **5**

Cefnogi dysgwyr i ddewis pynciau ym Mlwyddyn 9 5
Paratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau effeithiol yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 5
Cyflwyno'r cwricwlwm 'gyrfaoedd a'r byd gwaith' 6

**Arweinyddiaeth a rheolaeth** **7**

Rheoli adnoddau 7
Partneriaethau i gyflwyno Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 8

**Arfarnu effeithiolrwydd a mesur effaith** **10**

**Atodiad 1: Amcanion dysgu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith**

**Atodiad 2: Sail y dystiolaeth**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2011-2012. Hwn yw'r adroddiad cyntaf mewn cyfres o ddau adroddiad i arfarnu graddau ac effeithiolrwydd dull ysgolion uwchradd o gyflwyno'r fframwaith statudol Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG). Mae'r amcanion dysgu yn y fframwaith wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

2 Mae'r adroddiad arolwg hwn yn arfarnu effeithiolrwydd ysgolion wrth roi'r wybodaeth a'r medrau i bobl ifanc i gynllunio eu dysgu a'u gyrfaoedd a bod yn ymwybodol o'r medrau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad lafur neu mewn dysgu pellach. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r ystod o dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 2.

3 Mae'r adroddiad yn ystyried casgliadau adroddiad blaenorol gan Estyn, a archwiliodd gyfranogiad dysgwyr mewn profiad gwaith.

## Cefndir

4 Yn Ionawr 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gofynion i ysgolion gyflwyno "Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru". Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r fframwaith yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r "math o fewnwelediad sy'n cynhyrchu realaeth a dyhead o ran eu bywyd yn y dyfodol". Mae'r ddogfen yn nodi "y bydd angen i'r sawl sy'n cydlynu GBG sicrhau bod ystod eang o bartneriaid yn cymryd rhan wrth gyflwyno'r maes cwricwlwm hwn. Bydd y rhain yn cynnwys athrawon pwnc/tiwtoriaid yn gwneud eu maes eu hunain o'r cwricwlwm yn berthnasol ac yn ddiddorol drwy ddefnyddio'r byd gwaith yn gyd-destun ar gyfer dysgu. Yn yr un modd, bydd yn cynnwys Gyrfa Cymru, cyflogwyr, entrepreneuriaid, ymgynghorwyr, rhieni, hyfforddwyr a grwpiau cymunedol yn cynnig cyfleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'u meysydd arbenigedd eu hunain." Nod y fframwaith yw helpu dysgwyr i:

- archwilio'r agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer cyflogadwyedd a dysgu gydol oes;
- cynllunio a rheoli eu llwybr trwy ystod o gyfleoedd mewn dysgu a gwaith;
- gwneud dewisiadau gyrfa effeithiol;
- dod yn entrepreneuraidd;
- ffynnu mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith;
- cael eu cymell, gosod nodau tymor hir a goresgyn rhwystrau;
- gweld perthnasedd eu hastudiaethau i'w bywyd a'u gwaith;
- datblygu'r medrau allweddol a'r medrau eraill sy'n ofynnol gan gyflogwyr; a
- pharatoi ar gyfer heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau bywyd gwaith ac oedolyn.

5 Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru atodiad ychwanegol hefyd i ddarparu detholiad o ddeunyddiau allweddol ar gyfer cydlynwyr i'w cynorthwyo i reoli'r maes pwnc hwn.

6 Yn ystod 2008, dechreuodd Llywodraeth Cymru broses o adolygu'r berthynas rhwng yr amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth i ddarparu addysg gyrfaoedd, gwybodaeth am yrfaoedd, gwasanaethau cyngor ac arweiniad a chysylltiadau addysg a busnes a gwasanaethau lleoli hefyd er mwyn nodi sut y gellid gwella'r perthnasoedd hyn.

7 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am dystiolaeth o arolygiadau Estyn o gwmnïau Gyrfa Cymru, a gwblhawyd yn ystod cylch arolygu 2004-2010. Cyhoeddodd Estyn ei adolygiad 'Cyflwyniad Estyn i'r Adolygiad o'r Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru: Dadansoddiad cymharol o berfformiad Gyrfa Cymru 2005-2008' yn 2009. Yn y cyhoeddiad, erbyn i gleientiaid fynychu cyfweliad arweiniad gydag ymgynghorwyr gyrfaoedd, dywedodd Estyn fod cynllunio gyrfaoedd cleientiaid "yn cael ei lywio'n well yng Nghaerdydd a'r Fro a'r Gogledd Ddwyrain mewn perthynas â chwmnïau eraill a'i fod yn well na chyfartaledd Cymru. Yn y Gogledd Orllewin a'r Gorllewin, dim ond cael eu hysbysu'n ddigonol a wna cleientiaid, ac fe gânt eu hysbysu'n wael yng Ngwent". Yn yr arolygiad diweddarach o Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yn 2009, nodwyd bod cleientiaid yn yr ardaloedd hyn yn cael eu hysbysu'n llai na chyfartaledd Cymru hefyd, ar sail graddau a ddyfarnwyd gan arolygwyr Estyn. Mae'r amrywiad hwn ym medrau a pharodrwydd cleientiaid ar gyfer cynllunio gyrfa, er gwaethaf eu profiad o GBG, yn golygu bod yn rhaid i ymgynghorwyr gyrfaoedd gyflawni mwy i helpu cleientiaid yn ystod ymyriadau arweiniad.

8 Comisiynwyd astudiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru, ac fe gyhoeddwyd ei chanfyddiadau "Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru", ym Medi 2010. Roedd yr adolygiad diweddarach hwn, a ddefnyddiodd ystod eang o dystiolaeth, yn argymell y dylai gweithredu'r fframwaith GBG gael ei arolygu ar sail thematig gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

9 Mae bron pob ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i ddisgyblion i'w helpu i ddewis pynciau ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn golygu bod ymgynghorwyr gyrfaoedd yn cael eu cynnwys yn dda ac yn rhoi cyfleoedd i rieni drafod opsiynau. Mae consortia'r Rhwydwaith Dysgu wedi cynyddu ystod y dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r her weinyddol o gydlynu darpariaeth ac amserlenni ar draws y partneriaid mewn Rhwydwaith 14-19 yn golygu bod gofyn i lawer o ddisgyblion ddewis opsiynau Blwyddyn 9 yn gynharach nag yr oeddent yn y gorffennol. Mae hyn yn cyfyngu'r amser a gânt a faint o ddata asesu sydd ar gael i'w paratoi i wneud dewisiadau gwybodus. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr Blwyddyn 9 yn cael mewnbwn GBG nac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn ddigon cynnar i fod o gymorth. At ei gilydd, cyfyngedig yw defnydd ysgolion o wybodaeth y farchnad lafur i helpu disgyblion i wneud penderfyniadau yn y cyfnod hwn. Nid yw'r arfarniad o ba mor effeithiol y mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau am ganlyniadau eu dewisiadau pwnc ym Mlwyddyn 9 yn drylwyr. Ni chaiff data ei gasglu'n systematig ar draws partneriaethau'r Rhwydwaith Dysgu i lywio cynllunio strategol o'r modd y gall GBG gael yr effaith orau ar benderfyniadau dysgwyr am ddilyniant.

10 Nid yw bron pob ysgol yn casglu data cyflawniad defnyddiol yn erbyn fframwaith amcanion dysgu cyffredinol GBG. Nid ydynt yn asesu medrau na gwybodaeth disgyblion yn gyson nac yn systematig yn hyn o beth.

11 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r meini prawf a ddefnyddir gan ysgolion i farnu'r ffordd y maent yn paratoi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus yn wallus am nad ydynt yn mesur effaith gweithgareddau ar "agweddau a gwerthoedd dysgwyr neu'u medrau mewn ystod o gyd-destunau", sy'n cynnwys elfennau allweddol y fframwaith GBG. Wrth arfarnu effeithiolrwydd, nid yw ysgolion yn gwneud defnydd da o'r data sydd ar gael na data priodol. Nid ydynt ychwaith yn ystyried pa mor dda y mae penderfyniadau disgyblion yn eu galluogi i lwyddo wrth gynnal eu dewisiadau dilyniant.

12 Nid yw'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi olrhain cyflawniad disgyblion neu i alluogi asesu gwybodaeth ar-lein wedi'i ddatblygu digon.

13 Mae dulliau ar gyfer cyflwyno GBG yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Mae ysgolion yn nodi ystod eang iawn o ddata y maent yn ei ddefnyddio er mwyn cynllunio a gwella'r rhaglen GBG, ond nid yw llawer o'r ffynonellau hyn yn dangos p'un a yw parodrwydd disgyblion ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio gyrfa yn gwella. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn cyfeirio at y nifer fawr o gyfweliadau arweiniad y mae Gyrfa Cymru yn eu cynnal mewn ysgol fel ffordd o fesur llwyddiant rhaglen GBG. Fodd bynnag, cynhelir y cyfweliadau p'un a oes rhaglen GBG ar waith ai peidio ac nid ydynt yn arwydd o lwyddiant GBG ynddo'i hun.

14 Mae faint o amser gwersi a neilltuir gan ysgolion i GBG yn amrywio gormod. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 11, mae'n amrywio o ddim amser o gwbl mewn rhai ysgolion i fwy na 30 awr mewn ysgolion eraill. Ni all Rhwydweithiau Dysgu farnu pa rai o'r ysgolion hyn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian neu'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol wrth baratoi disgyblion i wneud penderfyniadau effeithiol o ran cynllunio gyrfa.

15 Mae'r graddau y mae ysgolion yn cynnwys pobl eraill i gyflwyno'r rhaglen GBG yn amrywio'n fawr hefyd. Mewn dros chwarter o ysgolion, caiff dros hanner o'r rhaglen yng nghyfnod allweddol 4 ei chyflwyno gan bartneriaid allanol. Heb feini prawf arfarnu clir a chyffredin, ni all ysgolion a Rhwydweithiau Dysgu arfarnu pa rai o'r amrywiadau hyn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian neu sy'n cael yr effaith orau i ddisgyblion. Bron ym mhob ysgol, mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn gyfrannwr pwysig at y rhaglen.

16 Nid yw ysgolion yn galluogi llywodraethwyr i ddatblygu rôl sy'n cefnogi cynllunio GBG yn strategol. Nid oes gan y mwyafrif o ysgolion lywodraethwr sydd â chyfrifoldeb enwebedig am GBG.

17 Mae chwe deg dau y cant o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt wedi ennill dyfarniad Marc Gyrfa Cymru am wella ansawdd parhaus, neu maent yn gweithio tuag ato. Mae'r archwiliadau a gwblhawyd ganddynt yn erbyn arweiniad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ar GBG yn eu galluogi i fod yn gliriach ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cymorth penodol sydd eu hangen arnynt gan bartneriaid a sut i wella ansawdd GBG. Mewn rhai ysgolion, mae'r gostyngiadau mewn gwasanaethau gan Gyrfa Cymru yn ddiweddar wedi rhoi pwysau ar allu ysgolion i gyflwyno GBG.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 ymgynghori ag ysgolion i'w helpu i ddatblygu systemau i olrhain tystiolaeth yn erbyn y fframwaith GBG er mwyn i ddisgyblion ac athrawon allu monitro cynnydd unigolion wrth ddatblygu medrau mewn cynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau;

A2 helpu ysgolion i ddatblygu eu defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'w helpu i arfarnu eu heffeithiolrwydd wrth gyflwyno GBG;

A3 dosbarthu data ar gynaliadwyedd cyrchfannau cyntaf dysgwyr er mwyn i ysgolion allu monitro pa mor llwyddiannus fu eu dewisiadau; ac

A4 annog mwy o ysgolion i weithio tuag at ennill dyfarniad Marc Gyrfa Cymru.

**Dylai ysgolion:**

A5 wella rhan llywodraethwyr yng nghynllunio strategol GBG; a

A6 gwneud defnydd gwell o'r data sydd ar gael i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion er mwyn cynllunio gwelliannau mewn GBG.

**Dylai Rhwydweithiau Dysgu:**

A7 arwain sefydliadau wrth ddatblygu strategaethau i arfarnu'n drylwyr pa mor dda y maent yn paratoi disgyblion ar gyfer adegau pontio allweddol ac ar gyfer byd gwaith; ac

A8 annog casglu a rhannu data priodol i arfarnu sut caiff disgyblion eu paratoi ar gyfer adegau pontio allweddol.

## Deilliannau a darpariaeth

### Cefnogi dysgwyr i ddewis pynciau ym Mlwyddyn 9

18 Mae bron pob ysgol yn rhoi cymorth da i ddisgyblion gael gwybod am ddewisiadau pwnc ym Mlwyddyn 9. Maent yn cynnwys ymgynghorwyr gyrfaoedd yn dda wrth helpu disgyblion i ddeall goblygiadau dewisiadau pwnc mewn perthynas â gyrfa. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal nosweithiau agored buddiol ar gyfer rhieni i'w galluogi i drafod opsiynau gyda staff ysgolion ac ymgynghorwyr gyrfaoedd. Mae llawer o ysgolion yn annog disgyblion i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru i drefnu eu dewisiadau o bynciau. Mae'r cyfleuster ar-lein hwn wedi gwneud disgyblion yn fwy ymwybodol o'r dewisiadau sy'n agored iddynt.

19 Mae consortia'r Rhwydwaith Dysgu wedi ymestyn ystod y dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

20 Mae'r her weinyddol o ran cydlynu'r ddarpariaeth ac amserlenni ar draws yr ystod o bartneriaid mewn Rhwydwaith yn golygu bod gofyn i lawer o ddysgwyr ddewis pynciau yn gynharach ym Mlwyddyn 9. Yn yr ysgolion hynny sy'n cyflwyno GBG neu ABCh ar sail carwsél, cyfran yn unig o'r grŵp blwyddyn hwnnw sy'n gallu manteisio ar GBG neu ABCh ar y tro. Mae hyn yn golygu y bydd y rhai sy'n ymdrin â'r pynciau yn gynharach yn cael amser i fynd i'r afael â'r hyn y maent yn ei ddysgu a pharatoi ar gyfer eu dewisiadau ym Mlwyddyn 9. Fodd bynnag, nid yw'r rhai sy'n ymdrin â'r pynciau yn ddiweddarach yn cael eu paratoi cystal ar gyfer gwneud eu dewisiadau.

### Paratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau effeithiol yng nghyfnodau allweddol 4 a 5

21 Ym mhob ysgol, mae Gyrfa Cymru yn gyfrannwr pwysig at y rhaglen GBG. Mae ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd yr arweiniad a'r cyngor annibynnol y mae ymgynghorwyr gyrfaoedd yn eu rhoi i bob disgybl. Mae gweithgareddau Cyswllt Addysg a Busnes Gyrfa Cymru yn cynnig gweithgareddau buddiol sy'n gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'r farchnad lafur.

22 Mewn llawer o ysgolion, mae Gyrfa Cymru yn cefnogi pobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Pan fyddant yn cynnig rhaglenni i gefnogi'r bobl ifanc hyn, maent yn arfarnu eu heffaith yn dda. Maent yn olrhain y bobl ifanc i mewn i'w cyfnod nesaf. Maent yn cynnig cymorth parhaus iddynt fel eu bod yn gwneud y gorau o'u cyfleoedd o gael dilyniant ôl-16 effeithiol i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

23 Mae llawer o ysgolion yn casglu tystiolaeth o gyflawniadau a medrau disgyblion o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys dyddiaduron profiad gwaith a gwaith dosbarth. Fodd bynnag, ni all disgyblion nac athrawon nodi nac olrhain yr hyn y mae disgyblion yn ei gyflawni yn erbyn fframwaith amcanion dysgu cyffredinol GBG.

24 Nid yw'r defnydd o TGCh er mwyn gallu asesu gwybodaeth ar-lein, i gefnogi olrhain medrau disgyblion neu fonitro cynnydd tuag at amcanion dysgu GBG (Atodiad 2),

wedi'i ddatblygu digon. Hyd nes yr eir i'r afael â'r diffyg hwn, ni all ysgolion lunio barnau cywir, gyda thystiolaeth ar eu cyfer, am y safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd mewn GBG. Ni allant gymharu eu perfformiad yn erbyn perfformiad mewn ysgolion eraill ychwaith.

25 At ei gilydd, nid yw ysgolion yn gwneud digon o ddefnydd o wybodaeth y farchnad lafur i helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau cwbl wybodus yng nghyfnodau allweddol 4 a 5.

## Cyflwyno'r cwricwlwm 'gyrfaoedd a'r byd gwaith'

26 Mae dulliau ar gyfer cyflwyno GBG yn amrywio'n sylweddol ar draws ysgolion. Caiff testunau GBG eu cyflwyno'n rheolaidd mewn sesiynau ABCh neu raglenni Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt. Pan fydd ysgolion yn dirprwyo cyflwyno ar draws timau estynedig o staff, mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd yn y rhan fwyaf o achosion.

27 Gwelir enghreifftiau o gyflwyno GBG yn effeithiol mewn ysgolion sydd ag un cydlynydd GBG yn ogystal ag enghreifftiau o gyflwyno da mewn ysgolion sy'n mabwysiadu dull tîm. Yn y naill achos neu'r llall, mae'r ysgolion hynny sydd fwyaf effeithiol o ran rhoi gwybod i'w pobl ifanc am eu hopsiynau ôl-16 a'r farchnad lafur yn rhannu nodweddion cyffredin penodol. Maent:

- yn neilltuo amser ar gyfer GBG a gwersi a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd;
- yn gohirio amserlenni i gynnal digwyddiadau ar gyfer gweithgareddau grŵp blwyddyn gyfan;
- yn cynnig ystod dda o weithgareddau GBG, yn cynnwys siaradwyr allanol, ymweliadau a chymryd rhan mewn digwyddiadau;
- yn annog disgyblion i ymchwilio i'r ystod helaeth o opsiynau ôl-16 sydd ar gael ar draws y Rhwydwaith Dysgu;
- yn meddu ar uwch reolwyr sy'n dangos ymrwymiad da i GBG ac yn cyfathrebu'n dda gyda staff i sicrhau bod proffil uchel yn cael ei roi i GBG;
- yn datblygu rhaglen GBG achrededig;
- yn cynnig adnoddau dysgu da, yn cynnwys deunyddiau addysgu a rennir, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, a darparu / mynediad i gyfleusterau TGCh;
- yn trefnu bod cyflenwadau da mewn llyfrgelloedd neu fannau cyfeirio;
- yn cyflogi cydlynwyr gyrfaoedd profiadol a rhagweithiol, sydd wedi ymsefydlu'n dda yn y sefydliad, ac sy'n rhoi ffocws da i GBG ar draws yr ysgol;
- yn defnyddio dull tîm effeithiol, sy'n cynnwys staff yr ysgol ac ymgynghorwyr gyrfaoedd, i helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau effeithiol; ac
- yn esbonio'n glir i staff yr ysgol sut y dylent gyfrannu at gyflwyno GBG.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

28 Mae cydlynu ystod fwy o ddewisiadau ar draws Rhwydweithiau Dysgu yn golygu bod yn rhaid i ddysgwyr mewn lleiafrif o ysgolion ddewis pynciau ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn gynharach ym Mlwyddyn 9. Mae lleiafrif o ysgolion wedi ymateb i hyn yn dda trwy drefnu digwyddiadau gwybodaeth a sesiynau rhagflas ym Mlwyddyn 8 neu ddechrau amserlenni Blwyddyn 9 yn haf Blwyddyn 8, sy'n rhoi mwy o amser i ddisgyblion a rhieni wneud dewisiadau mwy gwybodus.

29 Fodd bynnag, mae heriau i'r dull hwn nad yw ysgolion wedi'u goresgyn eto. Y cynharaf y gwneir dewisiadau, y lleiaf y mae data asesu ar gael ar ansawdd y gwaith a gwblhawyd gan ddisgyblion ym Mlwyddyn 9, a gall hyn gael effaith niweidiol ar ddibynadwyedd y cyngor a roddir i ddisgyblion ar addysg a gyrfaoedd.

30 Hefyd, mae'r ysgolion hynny sy'n gofyn i ddisgyblion ddewis pynciau cyfnod allweddol 4 yn gynharach ym Mlwyddyn 9 wedi canfod y gall hyn gael effaith niweidiol ar ddysgu lleiafrif o ddisgyblion. Mae'r lleiafrif hwn o ddisgyblion sydd eisoes wedi penderfynu gollwng pynciau ar ddiwedd Blwyddyn 9, yn gwneud cynnydd cryn dipyn yn llai yn y pynciau hynny am weddill y flwyddyn.

### Rheoli adnoddau

31 Mae amrywiadau mawr yn faint o amser gwersi sy'n cael ei neilltuo gan ysgolion ar gyfer GBG (gweler ffigur 1). Er mai'r amser cyfartalog sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y rhaglen hon ym Mlwyddyn 7 yw 2.5 awr, nid oedd 30% o ysgolion yn neilltuo unrhyw amser ar gyfer GBG, ond roedd sawl ysgol yn neilltuo 20 awr. Yn yr un modd, ym Mlwyddyn 11, dywedodd 30% nad oeddent yn neilltuo unrhyw amser ar gyfer GBG, tra oedd sawl ysgol yn neilltuo 30 awr neu fwy. Er nad oes unrhyw amser penodedig wedi cael ei neilltuo, mae gormod o ysgolion yn peidio â neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

**Ffigur 1: Yr amser y mae ysgolion yn ei neilltuo ar gyfer GBG**

| Grŵp blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser cyfartalog sy'n cael ei neilltuo ar gyfer GBG (mewn oriau) | 2.5 | 3.7 | 8 | 10 | 10 | 13 |
| Canran yr ysgolion nad ydynt yn neilltuo unrhyw amser | 30% | 21% | 32% | 12% | 30% | 21% |

Mae'r gwerthoedd uchod wedi'u seilio ar 113 o ymatebion i'r arolwg. Mae'r ysgolion penodol a ymatebodd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.

32 Nid oes gan ysgolion feini prawf cyffredin ar gyfer arfarnu ystod y dulliau cyflwyno ar ddatblygu medrau GBG. Nid ydynt yn rhannu gwybodaeth am y ffordd y maent yn arfarnu GBG rhwng ysgolion nac o fewn Rhwydweithiau Dysgu ychwaith. Mae hyn yn golygu na allant farnu pa ddulliau yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth baratoi dysgwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol wrth gynllunio gyrfa.

33 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff GBG ei reoli gan aelod o staff a gynrychiolir gan yr uwch dîm rheoli. Mae gan leiafrif o ysgolion gydlynydd gyrfaoedd neu bennaeth gyrfaoedd sy'n gyfrifol am GBG.

34 Nid yw rôl llywodraethwyr ysgol wedi cael ei datblygu'n ddigonol o ran cynllunio GBG yn strategol. Yn y mwyafrif o ysgolion (62%), nid oes llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb enwebedig am GBG. Yn y lleiafrif sy'n weddill, nid yw rolau llywodraethwyr enwebedig wedi'u strwythuro'n ddigon da bob amser i roi cyfeiriad strategol i ysgolion. Yn yr achosion hyn, er bod llawer yn cael eu cynnwys mewn arfarniadau blynyddol o ABCh, nid ydynt yn canolbwyntio digon ar gyfrannu at farnau am ansawdd a safonau GBG. Mewn rhai achosion, mae gan y llywodraethwr enwebedig rôl ddefnyddiol mewn datblygu cysylltiadau gyda diwydiant. Mae rhai ysgolion yn rhoi adroddiad tymhorol i lywodraethwyr ar GBG. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio digon ar arfarniadau sy'n gallu helpu llywodraethwyr i ddeall y modd y mae darpariaeth yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'r byd gwaith, a'u parodrwydd ar ei gyfer.

35 Mae ysgolion yn nodi ystod eang iawn o ddata y maent yn ei ddefnyddio er mwyn gwella rheolaeth, ansawdd a safonau GBG. Mae rhai o'r ffynonellau data a ddyfynnwyd gan ysgolion yn cynnwys:

- data presenoldeb;
- data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer;
- gwybodaeth y farchnad lafur;
- data prydau ysgol am ddim, heb nodi unrhyw berthynas rhwng y nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim a gwneud cynnydd mewn GBG;
- niferoedd y cyfweliadau a gynhaliwyd gan staff Gyrfa Cymru;
- niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ffug gyfweliadau gyda chyflogwyr; a
- niferoedd y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau profiad gwaith.

36 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r ffynonellau data hyn yn ddefnyddiol. Nid ydynt yn dangos p'un a yw disgyblion yn cael eu paratoi'n well ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio gyrfa. Ni all ysgolion ddangos yn glir y modd y maent yn defnyddio eitemau data penodol i lywio'r cynllunio neu ddangos perthynas glir rhwng y data a'r deilliannau dysgu o fewn GBG.

37 Mae ysgolion yn gwneud defnydd annigonol o ddata, y mae Gyrfa Cymru eisoes yn ei gasglu, sy'n olrhain pa mor dda y mae pobl ifanc yn cynnal dilyniant yn yr opsiynau gyrfa a ddewiswyd ganddynt.

## Partneriaethau i gyflwyno GBG

38 Mae amrywiadau mawr yn y graddau y mae ysgolion yn cynnwys partneriaid eraill mewn cyflwyno'r rhaglen GBG. Heb feini prawf arfarnu clir a chyffredin, ni all

ysgolion a Rhwydweithiau Dysgu arfarnu pa un o'r amrywiadau hyn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian neu sy'n cael yr effaith orau ar gyfer pobl ifanc. Mewn dros chwarter o ysgolion, caiff dros hanner o'r rhaglen yng nghyfnod allweddol 4 ei gyflwyno gan bartneriaid allanol, fel Gyrfa Cymru (gweler ffigur 2).

**Ffigur 2: Cyfranogiad allanol mewn cyflwyno GBG**

| | Llai na 5% | 6-10% | 11-20% | 21-30% | 31-40% | 41-50% | Mwy na 50% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfran y gweithgareddau GBG a gyflwynir gan sefydliadau allanol, yn hytrach na chan staff ysgol yng nghyfnod allweddol 4 | 7% | 12% | 21% | 14% | 7% | 12% | 27% |

39 Nid oes unrhyw berthynas rhwng cyfran y cyflwyno allanol a'r amser a neilltuir ar gyfer GBG. Er enghraifft, mewn sawl ysgol lle cafodd dros 50%, a chymaint ag 80% o'r ddarpariaeth, ei chyflwyno gan bartneriaid allanol, roedd yr amser a neilltuir i GBG ar draws yr amserlen islaw'r cyfartaledd. Yn yr achosion prin hyn, heb gyflwyno allanol, ychydig iawn o gyfle fyddai dysgwyr yn ei gael i fanteisio ar GBG.

40 Mae ysgolion yn cynnal trafodaethau blynyddol i gytuno ar fewnbwn cwmnïau Gyrfa Cymru, ac maent yn ystyried bod hyn yn werthfawr iawn.

41 Mae chwe deg dau o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt wedi ennill dyfarniad Marc Gyrfa Cymru am wella ansawdd parhaus, neu maent yn gweithio tuag ato. Mae staff Gyrfa Cymru yn cefnogi ysgolion yn dda i'w helpu i ennill y dyfarniad hwn. Mae paratoi ar gyfer y dyfarniad hwn yn helpu ysgolion i fod yn gliriach ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cymorth penodol sydd eu hangen arnynt gan bartneriaid. Cyflawnir yr eglurder hwn yn rhannol o ganlyniad i archwiliadau y maent wedi'u cwblhau yn unol ag arweiniad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ar GBG. Mae'r arweiniad yn helpu'r ysgolion hyn i ganolbwyntio mwy ar eu blaenoriaethau wrth drafod cymorth. Maent yn gliriach ynglŷn â pha wasanaethau allanol fydd yn gwella'r hyn y gall yr ysgol ei ddarparu. Mae amcanion penodol wedi'u cynnwys yng nghynlluniau datblygu ysgol bron pob ysgol sydd wedi ennill Marc Gyrfa Cymru, neu'n gweithio tuag ato, i wella ansawdd a safonau'r cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr.

42 Mae rhai ysgolion wedi nodi bod gostyngiadau diweddar mewn cwmpas y gwasanaeth gan Gyrfa Cymru wedi rhoi pwysau ar y ffordd y mae'r ysgolion yn cyflwyno GBG. Er na allant feintoli effaith gyffredinol y gostyngiad hwn yn y gwasanaeth ar ansawdd a safonau GBG, mae sawl un wedi nodi bod cwmnïau'n cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd fwy targedig. Adlewyrchir enghreifftiau o hyn mewn datganiadau fel:

- "mae'r adolygiad blynyddol/drafodaeth flynyddol wedi bod yn fwy heriol nag erioed. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu gwaith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a llai o fewnbwn yng nghyfnod allweddol"; ac

- "Rydym yn gobeithio hyrwyddo rhywfaint o weithgarwch ym mhob grŵp blwyddyn. Mae toriadau yng nghyllid cwmnïau gyrfaoedd yn gwneud hyn yn gynyddol anodd".

## Arfarnu effeithiolrwydd a mesur effaith

43 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio arolygon a grwpiau ffocws yn dda ym Mlwyddyn 9 i ymgynghori gyda disgyblion am ystod yr opsiynau sydd ar gael, a sut y cânt eu grwpio. Mae llawer ohonynt yn defnyddio holiaduron i gael adborth ar broses opsiynau Blwyddyn 9. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, caiff pob ysgol ei chynnwys mewn arfarniad o opsiynau Blwyddyn 9 sy'n cael ei drefnu trwy'r Rhwydwaith Dysgu bob blwyddyn. Mae hon yn strategaeth ddefnyddiol i gasglu data a all alluogi meincnodi. Fodd bynnag, nid yw arfarniad y rhan fwyaf o ysgolion o ba mor effeithiol y mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau cynllunio ym Mlwyddyn 9 yn drylwyr, ac nid yw'n defnyddio meini prawf cyffredin ar draws yr ysgolion mewn ardal neu ledled Cymru.

44 Mae llawer o ysgolion yn monitro nifer y disgyblion sy'n newid cyrsiau ar ddechrau Blwyddyn 10. Fodd bynnag, ni chaiff data ei gasglu mewn modd systematig ar draws partneriaethau'r Rhwydwaith Dysgu na'i ddefnyddio i lywio cynllunio strategol.

45 Bron ym mhob achos, mae'r meini prawf a ddefnyddir gan ysgolion i arfarnu eu heffeithiolrwydd wrth gyflwyno GBG mor ddiffygiol fel nad ydynt yn mesur effaith gweithgareddau ar agweddau a gwerthoedd neu fedrau disgyblion mewn ystod o gyd-destunau, sef elfennau allweddol y fframwaith GBG. Mae bron pob un ohonynt yn barnu bod effeithiolrwydd eu disgyblion wrth gyflawni amcanion dysgu'r GBG yn dda neu'n rhagorol. Fodd bynnag, nid oes yr un ysgol yn asesu cyflawniad disgyblion o ran yr amcanion a amlinellir yn y fframwaith GBG yn systematig. Mae hyn yn golygu na allant ddangos effaith y rhaglen.

46 Mae ysgolion yn barnu eu bod yn paratoi disgyblion yn dda neu'n dda iawn i wneud penderfyniadau gwybodus am eu cynlluniau gyrfa a'u hopsiynau ôl-16. Fodd bynnag, eto, yn eu tŷb nhw mae'r meini prawf sy'n llywio'r farn hon yn ddiffygiol, ac nid ydynt yn defnyddio data am gynnydd disgyblion tuag at ddeilliannau dysgu'r fframwaith na'u defnydd o'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn effeithiol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir gan ysgolion yn canolbwyntio gormod ar y gyfradd dychwelyd i addysg, cyfradd y dilyniant i addysg uwch ac ar lefelau'r dysgwyr ôl-16 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn ystyried pa mor dda y mae pobl ifanc yn llwyddo i gynnal eu dewisiadau dilyniant fel mesur o effeithiolrwydd cynllunio eu gyrfa ac addysg.

47 Mae sawl ysgol yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n sicrhau eu cwrs addysg uwch mwyaf dymunol. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro'r gyfradd y mae'r myfyrwyr hyn yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf mewn addysg uwch, er gwaethaf y cyfraddau uchel o ran tynnu'n ôl ar rai cyrsiau. Mae hyn yn golygu eu bod yn tybio bod y ffaith iddynt ennill lle i astudio cwrs yn dangos cynllunio gofalus, hyd yn oed os yw'r myfyriwr yn gweld nad yw'r cwrs yn gweddu i'w ddiddordebau, ei gryfderau neu'i ddyheadau ar ôl dechrau arno.

48 Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru yn rhoi data i ysgolion ar gyrchfannau eu myfyrwyr. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r data hwn i gymharu cyrchfannau dilyniant eu myfyrwyr yn erbyn cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei rannu gydag ysgolion eraill rhyw lawer, a gallai hyn ddechrau'r broses o rannu arfer dda.

49 Mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn cynnal dadansoddiadau dilynol o ddysgwyr i nodi'r cyfrannau sydd wedi cynnal eu hopsiynau dilyniant. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn cael dadansoddiadau o'r data hwn, sy'n cynnig mesur o ganlyniad llwyddiannus y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan ddysgwyr.

50 Ni chaiff gwybodaeth am yr amrywiadau mawr yn y cyllid ar gyfer cyflwyno GBG ei chasglu a'i dadansoddi o fewn Rhwydweithiau Dysgu neu awdurdodau lleol i'w galluogi i nodi pa ddulliau cyflwyno sy'n cynnig y gwerth gorau am arian wrth helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol.

# Atodiad 1

Cymerwyd y detholiad isod o Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2008. Mae'n amlinellu prif **amcanion dysgu'r fframwaith**.

## Cyfnod Allweddol 3: deilliannau dysgu

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol
2. gwrando'n astud ac ymateb yn ddefnyddiol
3. cael gafael ar ystod briodol o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor o fewn cyd-destunau wedi'u diffinio
4. lleoli, dewis a chrynhoi gwybodaeth, gan nodi pwyntiau allweddol
5. dewis a dehongli data am gyfleoedd dysgu a gyrfa
6. defnyddio TGCh i ganfod, gwirio a defnyddio gwybodaeth berthnasol
7. ystyried syniadau a gwerthoedd eu hunain a phobl eraill am ddysgu, gyrfaoedd a'r byd gwaith i lywio barnau a phenderfyniadau
8. datblygu ystod o syniadau i ddatrys problemau
9. cyfathrebu'n glir yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith

### Ystod

**Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:**

#### Cyflawniad personol

1. ddisgrifio eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau
2. rhestru eu cyflawniadau yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol

#### Ceisio gwybodaeth

3. defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i chwilio am wybodaeth am ystod o gyfleoedd gwaith a dysgu
4. cael gwybod am y gwahanol fathau o waith sydd ar gael a sut y mae patrymau gwaith yn newid

#### Deall y byd gwaith

5. cydnabod a herio'r stereoteipiau sy'n cyfyngu pobl wrth ddewis eu gwaith a'u gyrfaoedd
6. archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter wrth greu cyfoeth
7. dysgu am y rhinweddau personol sy'n bwysig i gyflogwyr

10. trefnu gwybodaeth amdanynt eu hunain yn glir ac yn gadarnhaol

11. cynllunio, cytuno ac adolygu targedau

12. rheoli amser o fewn strwythurau wedi'u gosod

13. addasu i sefyllfaoedd newydd

14. gallu cymhwyso dysgu i ystod o sefyllfaoedd.

### Arweiniad

8. nodi'r bobl sy'n gallu rhoi cyngor ac arweiniad gwybodus am ddewisiadau pwnc/syniadau gyrfa a deall goblygiadau'r llwybrau posibl o'u blaenau

9. nodi unrhyw rwystrau rhag cyflawni cynlluniau'r dyfodol a phenderfynu sut y gellid eu goresgyn

### Gwneud a gweithredu penderfyniadau

10. defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod amdanynt eu hunain, dysgu a gwaith mewn penderfyniadau am lwybrau Cyfnod Allweddol 4 unigol

11. gallu egluro eu dewisiadau arfaethedig i'w cyfoedion ac i oedolion priodol.

# Cyfnod Allweddol 4: deilliannau dysgu

## Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt
2. gwrando'n astud ac ymateb yn ddefnyddiol, gan nodi cryfderau a gwendidau safbwyntiau
3. cael gafael ar ystod eang o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor
4. lleoli, dewis a nodi pwyntiau allweddol o ystod o wybodaeth, gan gynnwys trywyddau rhesymu
5. dewis, cymharu a dehongli data sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain
6. defnyddio TGCh i ddod o hyd i wybodaeth sy'n gywir ac yn berthnasol am ystod o bwrpasau
7. ystyried eu safbwyntiau eu hunain a phobl eraill am ddysgu, gyrfaoedd a'r byd gwaith er mwyn llywio barnau a phenderfyniadau
8. ceisio a gwerthuso atebion arloesol i broblemau
9. cyfathrebu'n ddealladwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith
10. cyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd

## Ystod

**Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:**

### Cyflawniad personol

1. ddatblygu curriculum vitae (CV) yn seiliedig ar eu cyflawniadau, eu galluoedd, eu diddordebau a'u sgiliau

### Ceisio gwybodaeth

2. defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ganfod gwybodaeth am eu syniadau gyrfa, gan wahaniaethu rhwng gwybodaeth a deunydd hyrwyddo
3. archwilio cyfleoedd a thueddiadau cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd

### Deall y byd gwaith

4. archwilio goblygiadau stereoteipio mewn cyflogaeth a hyfforddiant, gan gydnabod buddiannau agwedd gadarnhaol at wahaniaeth ac amrywiaeth
5. archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd
6. adnabod eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a dysgu sut i ddilyn arferion gwaith diogel
7. defnyddio profiadau â ffocws ar waith i ddeall yn well pa sgiliau a rhinweddau personol y mae cyflogwyr eu heisiau

11. cynllunio, gosod targedau ac adolygu/myfyrio ynghylch dysgu

12. rheoli amser â rhywfaint o annibyniaeth

13. addasu i ystod o sefyllfaoedd newydd

14. gallu cymhwyso dysgu i ystod o sefyllfaoedd yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol

15. dangos ymwybyddiaeth newydd am anghenion cwsmeriaid.

### Arweiniad

8. cael gafael ar ganllawiau realistig, diduedd ynghylch dysgu, gyrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith

9. deall y rhagolygon a'r patrymau dilyniant yn y swyddi sydd o ddiddordeb iddynt

10. archwilio eu syniadau gyrfa a'r effeithiau posibl ar eu bywydau

11. nodi unrhyw rwystrau rhag dyheadau'r dyfodol a chynllunio'n feddylgar sut y gellid eu goresgyn

### Gwneud a gweithredu penderfyniadau

12. nodi, deall a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith

13. gallu egluro eu dewisiadau yn eithaf manwl i'w cyfoedion ac i oedolion priodol

14. adolygu gwybodaeth gyfredol amdanynt eu hunain mewn perthynas â dysgu a gwaith er mwyn trefnu cynllun gyrfa

15. hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol wrth wneud ceisiadau a mynychu cyfweliadau.

# Ôl-16: deilliannau dysgu

## Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

1. weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol mewn ystod eang o leoliadau
2. gwrando'n astud ac ymateb yn effeithiol, gan gyfrannu'n arwyddocaol i drafodaethau
3. cael gafael yn annibynnol ar ystod eang o ffynonellau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor
4. dethol, crynhoi a chyfosod syniadau a gwybodaeth allweddol
5. dethol, cymharu a dehongli data o amryw o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain
6. defnyddio TGCh yn ddetholus ac yn effeithlon i ganfod, datblygu a chyfosod gwybodaeth fel ei bod yn addas at ddiben
7. archwilio eu tybiaethau a'u dyheadau eu hunain a phobl eraill a gwneud y defnydd gorau o hyn wrth wneud penderfyniadau
8. defnyddio dulliau arloesol i nodi cyfleoedd a datrys problemau
9. cyfathrebu'n hyderus ac yn ddealladwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'n briodol, am yrfaoedd a'r byd gwaith mewn ystod eang o gyd-destunau

## Ystod

**Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:**

### Cyflawniad personol

1. adolygu eu cyflawniadau a'u cynlluniau gwaith/gyrfa/astudio
2. parhau i ddatblygu curriculum vitae (CV) parhaus sy'n seiliedig ar eu cyflawniadau, eu profiadau, eu diddordebau a'u sgiliau er mwyn cryfhau eu cyflogadwyedd

### Ceisio gwybodaeth

3. ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur yng Nghymru
4. archwilio sut y gallai cyfleoedd ym Mhrydain, Ewrop a gweddill y byd effeithio ar eu syniadau gyrfa
5. ehangu eu gwybodaeth am gyfleoedd busnes a hunangyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu gorwelion gyrfa
6. trafod effaith tueddiadau cyfredol mewn patrymau gwaith ar eu cynlluniau gyrfa

### Deall y byd gwaith

7. trafod y manteision y gall amrywiaeth eu cyflwyno i'r gweithle a'r anfanteision y gellir eu creu drwy stereoteipio
8. ymroi i weithgareddau sy'n annog ymagwedd entrepreneuraidd at waith a chreu cyfoeth

10. cyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain yn effeithiol mewn amryw ddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd

11. cynllunio, gosod targedau ar draws sawl cyfnod amser ac adolygu/myfyrio ynghylch dysgu

12. rheoli amser yn annibynnol a chwrdd â therfynau amser tynn

13. addasu i sefyllfaoedd newydd heriol

14. gallu cymhwyso dysgu mewn ystod eang o leoliadau cyfarwydd ac anghyfarwydd

15. dangos ymwybyddiaeth gynyddol am anghenion cwsmeriaid.

9. deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau fel gweithwyr cyflog a gwybod sut i ddilyn arferion gwaith diogel

10. defnyddio profiadau â ffocws ar waith i gael dealltwriaeth well o'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac unrhyw oblygiadau i'w cynlluniau gyrfa/gwaith

### Arweiniad

11. cael gafael ar a dadansoddi canllawiau realistig, diduedd ar lwybrau addysg/gyrfa/gwaith

12. ystyried goblygiadau eu syniadau gyrfa o ran eu sefyllfa ariannol a'u ffordd o fyw

### Gwneud a gweithredu penderfyniadau

13. deall, dadansoddi a gwneud penderfyniadau am lwybrau unigol mewn addysg, hyfforddiant a gwaith

14. gallu egluro a chyfiawnhau eu dewisiadau i'w cyfoedion ac i oedolion priodol

15. adolygu, cyfosod a chyflwyno gwybodaeth amdanynt eu hunain mewn perthynas â dysgu a gwaith er mwyn cyd-drafod cynllun gyrfa

16. hyrwyddo hunanddelwedd gadarnhaol mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol gan gynnwys ceisiadau a mynychu cyfweliadau.

## Atodiad 2

### Sail y dystiolaeth

Cymerwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o'r canlynol:

- adroddiadau arolygu ysgolion uwchradd o gylch 2004-2010;
- tueddiadau sy'n ymddangos o adroddiadau arolygu ysgolion o gylch 2010-2016;
- deunyddiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a gyhoeddwyd ganddi, sy'n ymwneud â'i hadolygiad o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru;
- deunydd a data a gasglwyd yn ystod arolygiadau o gwmnïau gyrfaoedd, Rhwydweithiau Dysgu, awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- nodiadau o ymweliad arolygwyr Estyn a gyfrannodd at arolygon cylch gwaith; a
- data'n ymwneud â barnau arolygwyr Estyn ynglŷn â deilliannau cyfweliadau arweiniad gyrfaoedd.

I ychwanegu at y deunydd hwn, rhoddodd Estyn wahoddiad i gwmnïau gyrfaoedd lenwi holiaduron yn gysylltiedig â chyflwyno gwasanaethau yn eu hardaloedd sy'n cyfrannu at alluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cynllunio.

Cynhaliodd Estyn arolwg o ysgolion uwchradd hefyd. Dyma'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg hwn:

- Abersychan Comprehensive School
- Barry Comprehensive School
- Bishop Hedley High School
- Blessed Edward Jones R.C. School
- Bryn Hafren Comprehensive School
- Bryncelynnog Comprehensive School
- Cardigan County Seconday/Ysgol Aberteifi
- Castell Alun High School
- Coleg Cymunedol Y Dderwen
- Darland High School
- Fairwater High School
- Gwernyfed High School
- John Beddoes School
- Lewis Girls' Comprehensive School
- Mary Immaculate R.C. High School
- Oakdale Comprehensive School
- Olchfa School
- Pencoed Comprehensive School
- Pentrehafod School
- Pontllanfraith Comprehensive School
- Pontypridd High School
- Porth County Community School
- Rhyl High School
- St Cenydd School
- St John Baptist C.I.W. High School
- St John Lloyd RC School
- St Joseph's Catholic and Anglican High School
- St Joseph's R.C. High School
- St Martin Comprehensive School
- Tasker-Milward V.C. School
- Welshpool High School
- West Monmouth Comprehensive School
- Willows High School
- Ysgol Aberconwy
- Ysgol Alun
- Ysgol Botwnnog
- Ysgol Bro Ddyfi
- Ysgol Bro Gwaun
- Ysgol Bryngwyn
- Ysgol Bryn Alyn
- Ysgol Bryn Elian
- Ysgol Brynrefail
- Ysgol Cil-y-Coed
- Ysgol Clywedog

- Ysgol David Hughes
- Ysgol Dewi Sant
- Ysgol Dewi Sant
- Ysgol Dinas Bran
- Ysgol Dyffryn Amman
- Ysgol Dyffryn Conwy
- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Ysgol Dyffryn Ogwen
- Ysgol Eifionydd
- Ysgol Eirias
- Ysgol Glan Y Mor
- Ysgol Glan-Y-Mor
- Ysgol Friars
- Ysgol Gyfun Aberaeron
- Ysgol Gyfun Aberdaugleddau
- Ysgol Gyfun Bryn Tawe
- Ysgol Gyfun Cymer Rhondda
- Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi
- Ysgol Gyfun Emlyn
- Ysgol Gyfun Garth Olwg
- Ysgol Gyfun Gwynllyw
- Ysgol Gyfun Gŵyr
- Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
- Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
- Ysgol Gyfun Llangefni
- Ysgol Gyfun Llanbedr-Pont-Steffan
- Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
- Ysgol Gyfun Llanhari
- Ysgol Gyfun Maes Yr Yrfa
- Ysgol Gyfun Risga
- Ysgol Gyfun Tregib
- Ysgol Gyfun Trefynwy
- Ysgol Gyfun Treorci
- Ysgol Gyfun Y Bont Faen
- Ysgol Gymuned Ferndale
- Ysgol Lewis Pengam
- Ysgol Llanilltud Fawr
- Ysgol Maes Garmon
- Ysgol Maesteg
- Ysgol Penglais
- Ysgol Rhosnesni
- Ysgol Stanwell
- Ysgol Syr Hugh Owen
- Ysgol Syr Thomas Jones
- Ysgol Trecelyn
- Ysgol Uwchradd Aberhonddu
- Ysgol Uwchradd Argoed
- Ysgol Uwchradd Bedwas
- Ysgol Uwchradd Bodedern
- Ysgol Uwchradd Caereinion
- Ysgol Uwchradd Elfed
- Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath
- Ysgol Uwchradd Fitzalan
- Ysgol Uwchradd Glan Clwyd
- Ysgol Uwchradd Llanfair-Ym-Muallt
- Ysgol Uwchradd Llanidloes
- Ysgol Uwchradd Pen Y Dre
- Ysgol Uwchradd Teilo Sant yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Uwchradd Tregaron
- Ysgol Uwchradd Tywyn
- Ysgol Uwchradd y Drenewydd
- Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth
- Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd
- Ysgol Y Dyffryn
- Ysgol Y Gader
- Ysgol Y Moelwyn
- Ysgol Y Preseli
- Ysgol–Y-Grango

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Awdur yr adroddiad cylch gwaith | Alun Connick |
| Aelod o'r tîm | Catherine Evans |
| Aelod o'r tîm | Stephen Davies |